

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 19 Hydref 2017 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Y Cynghorydd Huw Jones

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Gwen Griffith

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Owen Pierce.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Jones, Gabrielle Wyn a Iwan Hywel

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2017.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Llwybr beics pentref Llandygai-adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wîb. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgynghori gyda Sustrans ynghylch symud yr arwydd, fel bod beicwyr yn defnyddio llwybr arall drwy'r pentref. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

3.2 Ymgynghoriad gyda'r ieuenctid- penderfynwyd bydd rhaid ymweld â'r ddau glwb ieuenctid ar gyfer y gwaith ymgynghori.

3.3 Gwair ger Felin Fawr yn felyn- Cyngor Gwynedd wedi ymweld a'r safle ac yn cytuno bod hoel chwynladdwr yno, ond does dim cofnod bod ymgymwrwr ar waith Priffyrdd wedi bod yno.

3.4 Adnewyddu prydles Canolfan Tregarth- nid yw'r Cyngor yn hapus i arwyddo les newydd heb dderbyn mwy o fanylion ynghylch cyflwr yr adeilad yn gyntaf. Penderfynwyd cael prisiau am archwilio'r draeni ac bod angen adroddiad asbestos ar gyfer yr adeilad.

3.5 Croes Celtaidd yn Graig y Pandy- yn dilyn ymateb gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, mae'r Cyngor yn hapus i gadw llygaid ar y garreg, ond bod angen trefnu i dorri ychydig o'r iddew o'i chwmpas.

- 3.6 Bwrdd picnic Tregarth- adroddwyd bod y Cyng. Dafydd Owen wedi cyfarfod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd i hysbysu'r Cyngor o ba safle i loeli'r bwrdd/byrddau. Penderfynwyd holi'r Cyngor os yw'r bwrdd wedi ei wneud yn lleol.
- 3.7 Lloches bws ger Stad Ddiwydiannol Llandygai- angen ei lanhau. Y Cyng. Dafydd Owen i holi Cyngor Gwynedd unwaith eto.
- 3.8 Cerrig Llwydion- y Cyng. Dafydd Owen wedi cyfarfod ar y safle gyda Chyngor Gwynedd, sydd o'r farn nad oes angen drych yno. Penderfynwyd holi unwaith eto.
- 3.9 Ysgol Bodfeurig- penodwyd y Cyng. Richard Fraser-Williams fel cynrychiolydd y Cyngor ar gorff Llywodraethwyr yr ysgol. Y Clerc i hysbysu'r ysgol.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Hydref 2017'

Cyflwynwyd: e-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol- Adroddiad Blynyddol 2018/19. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd: llythyr gan Gyngor Gwynedd-Hunanlaith-cynnig cyfle i'r Cyngor gydweithio gyda Hunanlaith ar gynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol yn yr ardal. Penderfynwyd anfon gwahoddiad i'r swyddog i un o'r cyfarfodydd nesaf.

Cyflwynwyd: e-bost gan Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru-drafft canllaw i brif gynghorau. Penderfynwyd bod bawb i ddarllen y dogfennau yn fanwl erbyn y cyfarfod nesaf, er mwyn anfon sylwadau cyn 21 Rhagfyr 2017.

5. Gwaith y mis

- 5.1 Torri gwair- adroddwyd bod cwynion wedi eu derbyn am y gwair hir ger mynedfa Tal y Cae a Pen y Groes, Bro Derfel. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd.
- 5.2 Llwybr 59, Carreg y Fedwen- y llwybr angen ei dorri. Y Cyng. Dafydd Owen am holi os oedd y gwaith wedi ei wneud yr wythnos hon.
- 5.3 Modurdai Bro Syr Ifor- y wal i gyd wedi disgyn. Angen hysbysu Cartrefi Cymunedol Gwynedd.
- 5.4 Cyffordd Felin Hen- y twll wedi ail ymddangos. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 5.5 Arriva-gwasanaeth Bethesda i Fangor- adroddwyd nad yw bob bws yn mynd drwy Tregarth. Y Clerc i anfon y cwynion at Arriva.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Neuadd Talgai – adroddwyd bod y Pwyllgor yn bwriadu cael diffibriliwr i'r Neuadd.
Coetir Mynydd – adroddwyd bod eu cais am ynni adnewyddol dal i fwrw ymlaen.
Canolfan Tregarth – adroddwyd bod swits yn yr ystafell pwyllgor wedi malu, ac bod yr Ysgol Feithrin wedi gwneud cais am well clo ar ei ystafell.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

- 7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Medi. Penderfynwyd rhoi hysbyseb am geisiadau rhoddion yn Llais Ogwan.
- 7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau Awdurdodwyd y canlynol

Swyddfa Archwilio Cymru	£188.40
Partneriaeth Ogwen	£3988.16
G Williams	£2988.00

9. Cyfethol aelodau ar gyfer Ward Llandygai

(y Cyng. Mair Owen Pierce wedi datgan diddordeb)

Ffion Jones methu derbyn y swydd. Penderfynwyd cyfethol Fiona Owen i'r sedd wag. Y Clerc i anfon cadarnhad i'r aelod newydd.

10. Penderfyniadau Cynllunio

C16/1340/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth
Codi modurdai i wasanaethu llety
gwyliau.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C16/1339/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth
Newid defnydd ysgubor yn uned
wyliau

Penderfyniad: Caniatwyd, gydag
amodau

NP3/16/10B

Pâr o feudai yn Fferm Pentre, Nant
Ffrancon, Bethesda
Newid defnydd tir a gwaith
peirianyddol a thirlunio i ddarparu 5
man parcio ceir a storfa deunyddiau,
lleoli dau gynhwysedd stôr (ôl-
weithredol) a phwmp gwres
ffynhonnell awyr, a newidiadau i'r
adeilad gweithdy ar adeilad bwyta

Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd
yn hyn

NP3/16/LB10A

Pâr o feudai yn Fferm Pentre, Nant
Ffrancon, Bethesda
Caniatâd Adeilad Rhestredig am
newidiadau mewnol i ychwanegu
uned gwresogi ffynhonnell awyr
mewnol a rheiddiaduron yn yr adeilad
fwyta

Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd
yn hyn

CTIL_207987_TEF_50749

Tir yn Bryn Cul, Tal Gae, Tregarth
Gosod gorsaf sylfaen arfaethedig
Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd
yn hyn

C17/0891/16/LL

Mike's Garage, Unit 2, Ystad
Ddiwydiannol Llandygai, Bangor
Dymchwel gweithdy presennol
ynghyd a chodi gweithdy (siugeneris)
newydd yn ei le
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C17/0722/16/LL

The Cottage, Coed y Parc, Bethesda
Dymchwel yr adeilad presennol a
chodi adeilad ar gyfer defnydd fel
stiwio yn yr ardd
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C17/0744/16/LL

Uned 2, Ystad Ddiwydiannol
Llandygai, Bangor
Estyniad bwriadedig i'r cyfleuster
cynhyrchu presennol er creu gofod
ychwanegol ar gyfer storio a phacio
Penderfyniad: Caniatwyd, gydag
amodau

C17/0897/16/LL

Ystad Ddiwydiannol Coed y Parc,
Bethesda, Bangor
Creu compownd storio allanol, ffensio
diogelwch a creu 14 llecyn parcio
ychwanegol
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C17/0908/16/LL

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda
Creu cwrs 4 weiren sip i gymryd lle 4
weiren sip bach wedi eu lleoli is-law y
brif weiren sip, gosod cyfarpar ac
isadeiledd cysylltiedig a llwyfannau i'r
rhai presennol ac ymestyn cloddiau
aciwstig presennol
Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C17/0903/16/LL

Carreg y Fedwen, Sling, Tregarth
Creu canolfan ymchwil a menter
iachad cysegredig gan gynnwys codi
pedwar adeilad newydd, creu
meysydd parcio a chodi wal ffin 2.3m

11. Ceisiadau Cynllunio

C17/0946/16/LL

o uchder (cais diwygiedig i gais
dynnwyd yn ôl - C16/1158/16/LL)

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

Tir yn Bryn Cul, Tal Gae, Tregarth
Codi twr latis 18m o uchder yn dal 3
antena, 3 dysgl trosglwyddiant
300mm o ddiametr, 2 gabinet offer ar
y tir a chyfarpar cysylltiedig

Penderfyniad: Gwrthwynebu

oherwydd 1) mae'r mast yn weladwy
amllwg o safbwynt eiddo yn Tal y Cae

2) mae yna gyfres o leoliadau
safleoedd hanesyddol cofrestredig
gerllaw.

12. Unrhyw fater brys arall

Canolfan Cefnfaes- adroddwyd bod Cyngor Gwynedd angen gwybod os oes
diddordeb yn bodoli o fewn y gymuned leol mewn mabwysiadu adeilad Cefnfaes. Bydd
cyfarfod i drafod hyn yn cael ei drefnu ar gyfer ganol mis Tachwedd, gyda cynrychiolwyr
o'r tri cyngor cymuned a Phartneriaeth Ogwen. Penderfynwyd yn unfrydol nad oedd
gan y Cyngor ddiddordeb mabwysiadu Canolfan Cefnfaes.

Sbwriel- derbyniwyd e-bost gan y Cyng. Gwen Griffith am blant ysgol yn taflu sbwriel ar
Stryd Fawr, Bethesda. Penderfynwyd bod angen cael trafodaethau gyda'r ysgolion i
godi ymwyddiaeth. Lucinda ein Gweithiwr Cynnal yn hapus i ymweld a'r ysgolion.
Y Clerc i gysylltu â Ysgol Dyffryn Ogwen a Chyngor Cymuned Bethesda.